

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 03/2015

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol Crynodeb gweithredol



# Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol

## Ymchwilyr:

Jennie Bibbings, Shelter Cymru

Dr Gail Boniface, Prifysgol Caerdydd

Dr Jacqueline Campbell, Shelter Cymru

Graham Findlay, Cynghorydd Cydraddoldeb ym maes Anabledd i'r Sefydliad Tai Siartredig

Emma Reeves-M<sup>c</sup>All, Tai Pawb

Meng Le Zhang, Prifysgol Caerdydd

Dr Peng Zhou, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Safbwyntiau'r ymchwilyr a geir yn yr adroddiad hwn, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â nhw o anghenraid.

Cewch ragor o wybodaeth gan:

Lucie Griffiths

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5780

E-bost: [lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk](mailto:lucie.griffiths@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 23 Ionawr 2015

ISBN: 978-1-4734-2818-8

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

# Geirfa

|              |   |
|--------------|---|
| <b>GCBA</b>  | Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl                       |
| <b>CD</b>    | Cymdeithas Dai  |
| <b>CRT</b>   | Cyfrif Refeniw Tai                                    |
| <b>AGA</b>   | Arian Gofal Annibynnol                                |
| <b>ABA</b>   | Addasiad Byw'n Annibynnol                             |
| <b>GBA</b>   | Grant Byw'n Annibynnol                                |
| <b>GAB</b>   | Grant Addasiad Bach                                   |
| <b>ThG</b>   | Therapydd Galwedigaethol                              |
| <b>GAff</b>  | Grant Addasiadau Ffisegol                             |
| <b>DP</b>    | Dangosydd Perfformiad                                 |
| <b>GAC</b>   | Grant Addasiad Cyflym                                 |
| <b>RhAYC</b> | Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym                      |
| <b>LCC</b>   | Landlord Cymdeithasol Cofrestredig                    |
| <b>TGGF</b>  | Trosglwyddiad Gwirfoddol Graddfa Fawr (sefydliad tai) |

# Crynodeb Gweithredol

1. Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru Shelter Cymru i gynnal adolygiad o'r addasiadau ar gyfer byw'n annibynnol a ddarperir yng Nghymru. Comisiynwyd y prosiect gan fod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gwario tua £35 miliwn bob blwyddyn ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl (GCBA) ac am fod Llywodraeth Cymru yn gwario tua £8 miliwn ar Grantiau Addasiadau Ffisegol (GAFf) ar gyfer tenantiaid cymdeithasol.
2. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng misoedd Mai a Thachwedd 2014 a dyma oedd ei dri nod:
  - Amlinellu'r system bresennol
  - Dangosyddion perfformiad
  - Asesu pa mor ymarferol yw ffyrdd newydd o weithio.
3. Roedd y dull o dan sylw yn cynnwys:
  - Holiadur ar gyfer darparwyr grantiau a ddenodd 56 ymateb o bob un o'r 22 awdurdod lleol
  - Holiadur ehangach ar gyfer rhanddeiliaid a ddenodd 14 ymateb gan saith therapydd galwedigaethol (ThG) a saith rhanddeiliad arall o amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys awdurdodau lleol
  - Cyfweiliadau gyda 19 rhanddeiliad o bwys a phum defnyddiwr gwasanaeth
  - Adolygiad cyd-destunol o lenyddiaeth gysylltiedig
  - Adolygiad o bolisiau darparwyr a gwybodaeth ar wefannau
  - Dadansoddiad mesurol o ddata lefel unigolion gan naw darparwr grantiau addasiadau
  - Dadansoddiad mesurol ac ansoddol o ddata dangosyddion perfformiad
  - Cynnal pedwar gweithdy ledled Cymru gyda rhanddeiliaid o bwys: dau yng Nghaerdydd (a ddenodd 41 o bobl), un yn Aberystwyth (a ddenodd 16 o bobl) ac un yn Abergele (a ddenodd 10 o bobl).

## **Amlinellu'r system bresennol**

4. Amlygodd yr adolygiad system fratiog o gyflwyno gwasanaethau oedd yn cynnwys sawl pwynt mynediad. Ceir llwybrau amrywiol gydag amrywiaeth o ffynonellau arian ar gyfer gwahanol ddeiliadaethau. Mae ariannu addasiadau wedi datblygu mewn modd ad hoc mewn ymateb i newidiadau ehangach o ran polisiau. Mae hyn wedi cymhlethu'r ffynonellau ariannu a'r meini prawf cymhwysedd. Er ei bod wedi cymryd llai o amser i gyflwyno Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl dros y blynyddoedd diwethaf, ceir oediadau annerbyniol o hyd.
5. Roedd y Grant Addasiadau Ffisegol, Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym a'r Grant Byw'n Annibynnol yn sefyll allan fel systemau syml, cyflym ac effeithiol. Roeddent yn cyferbynnu'n llwyr â'r Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl a chymhlethdod y system addasiadau'n gyffredinol.

6. Dim ond ar gyfer y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl y cynhelir prawf modd. Mae llawer o randdeiliaid o'r fam bod y prawf modd presennol yn cymryd cryn amser, yn anghyfartal mewn cysylltiad â ffynonellau ariannu eraill, ac nad ydyw o anghenraid yn gost-effeithiol. Ceir diffyg cysondeb o ran beth sy'n cael ei ddisgrifio fel addasiad bach neu o bwys, ac mae gwahanol ddarparwyr yn cynnig gwahanol drothwyon. Mae tueddiad o hyd i rai addasiadau bychain gael eu cyflwyno drwy broses y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl a bod rhaid cael prawf modd ac oediadau yn sgîl hynny.
7. Nid oes digon o wybodaeth ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth am addasiadau. Pobl hŷn sy'n cael y prif sylw yn y wybodaeth sydd ar gael. Yn aml, mae'r wybodaeth sydd ar gael yn gymhleth a thu hwnt i bobl nad ydynt yn gyfarwydd â'r 'system'. Disgrifiodd defnyddwyr gwasanaethau anawsterau wrth lywio drwy'r broses ac, ar y cyfan, nid oeddent yn gwybod sut roedd y system yn gweithio, er bod y rhan fwyaf yn fodlon ar eu haddasiadau.
8. Mae'r dadansoddiad ansoddol, er yn gyfyngedig oherwydd prinder data addas, yn dangos mai £3,887 yw cost cymedr prosiect addasu. 176 diwrnod yw'r amser cymedr y mae'n ei gymryd i gyflwyno addasiad, ac mae'r ffigwr hwn yn amrywio'n fawr.

#### **Dangosyddion perfformiad**

9. Nid yw'r ffordd y cesglir gwybodaeth dangosyddion perfformiad ar hyn o bryd yn gyson ar draws 22 awdurdod lleol Cymru er gwaethaf y canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod rhai awdurdodau lleol yn anwybyddu canllawiau'n fwriadol fel bod amserau cyflwyno'n edrych yn well.
10. Ceir argraff bod DP yn rhy leihaol. Ystyrir bod deilliannau cadarnhaol yn bwysicach nag amserau cyflwyno i ddefnyddwyr gwasanaeth. Ceir diddordeb mewn ychwanegu dulliau mesur sy'n rhoi'r cleient yn gyntaf at y data e.e. data am fodlonrwydd cwsmeriaid a/neu wybodaeth ansoddol am effaith addasiadau ar fywydau.
11. Roedd y rhai a ymatebodd i'r ymchwil o blaid cael un drefn o adrodd am berfformiad oedd yn cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, asiantaethau eraill ac awdurdodau lleol. Er y byddai'r DP yn mesur gwahanol brosesau, roeddent o'r farn y byddai hyn yn annog mwy o gysondeb a thegwch rhwng deiliadaethau.

#### **Rhoi cynnig ar ddulliau newydd**

12. Daeth sawl mater o bwys i'r amlwg yn ystod yr ymchwil hon:
  - Mae angen bod yn ofalus iawn gydag unrhyw newid cyffredinol i'r system gan fod llawer o'r ymgeiswyr yn agored i niwed, mae arian cyhoeddus yn brin, yn ogystal â chymhlethdod y system sy'n cynyddu'r risg o ddeilliannau anfwriadol.
  - Roedd sawl rhanddeiliad o'r farn fod cymhlethdod y system yn annerbyniol gan ei fod yn achosi annhegwch rhwng ymgeiswyr â deiliadaethau gwahanol o ran amserau aros a chost, yn ogystal â'r ffaith ei fod yn anodd i ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr ei defnyddio. Cafwyd barn wahanol hefyd mai'r ffaith fod tai yn faes cymhleth sy'n cael ei ariannu mewn ffyrdd cymhleth sy'n gwneud y sefyllfa hon yn anochel. Yn ôl y farn hon, mae cael sawl ffynhonnell ariannu yn

fanteisiol gan fod hynny'n lleihau'r pwysau ar draws y system h.y. mae'n golygu bod o leiaf rhai pobl yn cael addasiadau'n gymharol gyflym yn hytrach na bod pawb yn gorfod aros yr un amser maith.

- Mae anawsterau o bwys o ran sut y cesglir data gan nad yw'n rhoi dealltwriaeth drylwyr o ba mor effeithiol yw darpariaeth i wahanol grwpiau.
  - Ceir trafodaeth o ran p'un a ddylai addasiadau fod yn wasanaeth cyffredinol sydd am ddim wrth eu cyflwyno a heb brawf modd, neu a ddylid ystyried gallu pobl i dalu. Byddai lefelau Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl yn cael mwy o effaith pe byddai arian yn cael ei wario ar y gwaith ei hun yn hytrach na chostau gweinyddu. Mae egwyddor Llywodraeth Cymru o 'gyffredinoli cynyddol'<sup>1</sup> wedi arwain at bolisiau fel presgripsiynau am ddim a chardiau bysiau. Ar y cyfan, nid ystyrir bod prawf moddion yn cyd-fynd â'r egwyddor hon.
  - Ceir peth tystiolaeth<sup>2</sup> i awgrymu y byddai cael gwared ar y prawf modd yn debygol o gael rhywfaint o effaith ar alw, ond ni wyddir i ba raddau'n union. Er bod consensws yn gyffredinol y dylai'r prawf modd ddod i ben ar gyfer rhai o leiaf rhai addasiadau, mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad hwn yn awgrymu bod peryglon o bwys pe byddai system ble byddai popeth ar gael am ddim i bawb yn cael ei chyflwyno'n rhy gyflym ar adeg pan mae gwariant cyhoeddus yn cael ei dorri. Mae posibilrwydd y gallai darpariaeth gyffredinol gael ei chyflwyno fesul cam yn y tymor hir.
  - Roedd cefnogaeth frwd o blaid creu system tair haen ar gyfer addasiadau, a chael gwared ar y prawf modd ar gyfer mân addasiadau neu rai lefel ganolig.
  - Hwyrach y bydd modd adolygu'r prawf modd cyfredol a diffinio un newydd sy'n ymateb i rai o feirniadaethau'r rhanddeiliaid yn yr astudiaeth hon h.y. mae'r prawf yn ddull rhy gyffredinol o asesu angen; mae'n rhy gymhleth o ran ei ddull cyfrifo; nid yw'n ystyried yn llawn y costau sy'n gysylltiedig â byw ag anabledd; a'i fod yn atal rhai pobl rhag cael gafael ar addasiadau oherwydd y rhesymau hyn.
13. Ar sail yr ymchwil ansoddol a mesurol a gynhaliwyd yn rhan o'r Adolygiad hwn, cafodd tri model newydd eu datblygu a'u dadansoddi.
14. Dewis 1 – 'Status quo' – cynnal y ffynonellau ariannu presennol a'r asiantaethau cyflwyno, a chanolbwyntio ar fabwysiadu arferion gorau. Gyda'r model hwn:
- Byddai pob asiantaeth sy'n cyflwyno addasiadau yn gwneud yn siŵr bod eu timau ThG yn gweithio mor effeithlon â phosibl. Byddai pob Therapydd Galwedigaethol cynorthwyol yn cael hyfforddiant wedi'i gredydu gan asesydd y gellir ymddiried ynddo. Byddai pob asiantaeth sy'n cyflwyno addasiadau yn cymharu gweithdrefnau ag arweiniad Coleg y Therapyddion Galwedigaethol - *Minor Adaptations Without Delay* (COT, 2006)

<sup>1</sup> Drakeford, M. 'Progressive Universalism', yn *Agenda* (Winter 2006) Sefydliad Materion Cymreig, Caerdydd: IWA

<sup>2</sup> Mackie, P., Bowen, K. a McKeever, B. (2008) *Profiadau teuluoedd o gael gafael ar Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl: Astudiaeth ymchwil ar y cyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon*, Caerdydd, Shelter Cymru

- Byddai awdurdodau lleol sydd heb Gofrestr Tai Hygyrch yn gweithio gyda phartneriaid y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn creu un
- Byddai awdurdodau lleol sydd heb wasanaeth asiantaethau llawn yn ystyried cyflwyno un
- Byddai awdurdodau lleol nad ydynt eisoes yn cynnig grantiau ar gyfer lifftiau grisiau yn ystyried dilyn arferion da cyfredol yn y maes hwn
- Byddai awdurdodau lleol sydd heb dîm amlddisgyblaeth sy'n gweithio ar addasiadau, na Therapyddion Galwedigaethol yn yr un tîm â Thai, yn ystyried aildrefnu timau yn y ffordd yma
- Byddai awdurdodau lleol yn ailedrych ar gylchlythyr 20/02 y Cynulliad ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn dilyn y weithdrefn sefydledig ar gyfer mesur y dangosydd perfformiad
- Byddai Llywodraeth Cymru yn mireinio dulliau mesur perfformiad drwy fesur ar wahân yr amser rhwng derbyn yr ymholiad ac asesu, ac wedyn rhwng asesu a chwblhau. Rydym yn argymhell casglu data am berfformiad mewn modd cyson gan bob asiantaeth ddarparu. Hwyrach y bydd yn bosibl datblygu dulliau mesur perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr gwasanaeth hefyd
- Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o wella ansawdd data am addasiadau ar draws y system er mwyn ceisio datblygu polisiau da. Byddai data llawn am gydraddoldeb yn cael ei gasglu ar draws pob nodwedd a ddiogelir mewn ffordd gyson ledled Cymru
- Byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o gael mwy o atebolrwydd a thryloywder ymhlith landlordiaid cymdeithasol er mwyn defnyddio addasiadau'n effeithlon. Awgrymwn y dylai landlordiaid cymdeithasol gael eu gorfodi i gofnodi nifer a gwerth pob addasiad a dynnir o'u tai bob blwyddyn, a'u categorio yn ôl y rhesymau dros eu symud
- Byddai sefydliadau sy'n trefnu neu'n darparu addasiadau yn adolygu gwybodaeth gyfredol i wneud yn siŵr ei bod yn glir ac ar gael.

15. Dewis 2 – 'System unedig' – creu un gronfa drwy uno'r holl ffynonellau ariannu cyfredol, i'w chyflwyno gan un sefydliad ar gyfer pobl o bob deiliadaeth ac oed. Gyda'r model hwn:

- Byddai pob addasiad gwerth llai na £1,000 yn cael eu cyflwyno drwy system llwybr cyflym. Gallai awdurdodau lleol gyflwyno'r rhain yn uniongyrchol neu mewn partneriaeth ag asiantaethau fel Gofal a Thrwsio. Ni fyddai unrhyw brawf moddion ac ni fyddai Therapyddion Galwedigaethol yn rhan o'r broses oni bai mewn amgylchiadau eithriadol
- Byddai addasiadau canolig yn cael eu diffinio fel rhai sy'n costio dros £1,000 a llai na £7-10,000 – yr union drothwy i'w drafod gyda llywodraeth leol. Byddai'r rhain yn cael eu cyflwyno heb brawf modd – neu fel arall, yn cael eu cynorthwyo gan gronfa debyg i'r Grant Byw'n Annibynnol sy'n blaenoriaethu achosion brys
- Y prif addasiadau fyddai'r rhai mwyaf cymhleth. Byddai rôl therapyddion galwedigaethol yn hanfodol. Unwaith eto, byddai'r posibilrwydd o gael cronfa debyg i'r Grant Byw'n Annibynnol i flaenoriaethu achosion brys.

- Mewn system unedig, byddai Gweinidogion Cymru yn cydweithio i sefydlu cyfrifoldeb ariannol a rennir rhwng meysydd iechyd a thai ar gyfer addasiadau, gydag iechyd yn cyfrannu'n strategol at un gronfa.
- Byddai awdurdodau lleol yn cael eu hannog i fabwysiadu partneriaethau lleol cryf tebyg i'r ymagwedd a welwyd yn ystod peilot y Grant Byw'n Annibynnol, a chael cynrychiolaeth gan feysydd iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac asiantaethau eraill
- Mae'r dull hwn yn cynnig y cyfle i gyflwyno gwasanaeth cyffredinol yn raddol. Yr awdurdodau lleol fyddai'n cael arian yn y lle cyntaf ar gyfer addasiadau lefel is, a'u dosbarthu y tu allan i'r Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl. Wedi hynny, byddai arian ar gyfer addasiadau lefel ganolig yn cael eu trosglwyddo yn yr un modd, ac wedyn yr arian ar gyfer addasiadau cymhleth. Byddai angen neilltuo arian a chael cronfa wrth gefn
- Fel arall, gellir rhoi'r arian ar gyfer pob addasiad yn syth i'r awdurdodau lleol gan olygu y byddai'r prawf modd yn parhau. Byddai tenantiaid cymdeithasol nad ydynt yn cael prawf modd ar hyn o bryd, yn cael prawf modd o hyn ymlaen
- Byddai angen addasu dulliau mesur perfformiad er mwyn cofnodi perfformiad ar gyfer addasiadau bychain, lefel ganolig ac addasiadau o bwys ar wahân.

16. Mae goblygiadau ariannol cymhleth i system unedig. Dyma'r anawsterau yr ydym wedi'u hamlygu:

- Nid yw arian y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl wedi'i neilltuo ar hyn o bryd. Pe byddai awdurdodau lleol yn cael yr arian ar gyfer pob addasiad drwy Arian Cyfalaf Cyffredinol, mae'n fwy na phosibl y byddai'n cael ei roi i feysydd gwasanaeth eraill sy'n fwy o ran maint ac o dan bwysau ariannol. Mae'r perygl o gael llai o adnoddau ar gyfer addasiadau yn rhy sylweddol i allu ystyried arian sydd heb ei neilltuo yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.
- Byddai dod i gytundeb gydag awdurdodau lleol ynglŷn â chlustnodi yn dalcen caled dros ben oherwydd barn gyffredinol yn erbyn y dull hwn. Pe byddai modd dod i gytundeb ynghylch neilltuo arian, byddai angen cynnig cronfa hael i osgoi'r perygl o fod wedi gwario pob ceiniog erbyn canol y flwyddyn. Un ateb posibl i hyn fyddai i Lywodraeth Cymru gadw cronfa wrth gefn y gallai awdurdodau ei defnyddio pe byddai arian wedi'i wario yn ystod y flwyddyn.
- Byddai angen bod yn ofalus dros ben wrth greu un cronfa o arian gan fod perygl sylweddol o niweidio'r berthynas rhwng asiantaethau. Byddai amlygu faint sy'n cael ei wario i gyd ar addasiadau a brigdorri'r Grant Tai Cymdeithasol yn dalcen caled, yn ogystal â chyfrifo sut i ddyrannu arian.
- Mae iechyd yn faes gwasanaeth lle mae'r esgid fach yn gwasgu gan olygu y byddai'r posibilrwydd o gytuno ar rannu cyfrifoldeb ariannol yn anodd dros ben.
- Byddai angen rhagor o arian i leihau'r perygl o greu oedi ym mhroses yr awdurdodau lleol yn ogystal ag ystyried addasiadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr; unrhyw gronfa debyg i'r Grant Byw'r Annibynnol, ac unrhyw alw uwch o ganlyniad o gael gwared ar y prawf modd.
- Mae cael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau bychain a chanolig yn codi cwestiynau am wneud yn siwr bod adnoddau'n mynd i'r rhai nad ydynt yn gallu fforddio addasiadau eu hunain.



- Mae rhoi cyfrifoldeb am addasiadau ar ysgwyddau awdurdodau lleol yn unig yn cael gwared ar unrhyw gymhelliant gan landlordiaid cymdeithasol i wario mwy ar addasiadau neu greu cronfeydd wrth gefn i ddiwallu anghenion lleol a amlygwyd – gallai hyn olygu bod llai o arian ar gyfer addasiadau ar y cyfan.
- Byddai cymryd cyfrifoldeb oddi wrth lanlordiaid cymdeithasol cofrestredig am addasiadau yn arwain at golli swyddi. Byddai angen i awdurdodau lleol gyflogi staff newydd i brosesu mwy o achosion.

17. Dewis 3 – ‘System haenog’ – yn cadw’r ffynonellau arian cyfredol ond yn rhoi mwy o bwyslais ar ddatblygu elfennau o arferion gorau fel y dangosodd y Grant Addasiadau Ffisegol, y Grant Byw’n Annibynnol a’r Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym. Mae’r pwyslais ar gyflwyno gwasanaethau’n fwy syml ar lawr gwlad mewn ffordd decach i ddefnyddwyr gwasanaeth, a chynnal amrywiaeth o ffynonellau ariannu ar yr un pryd i leihau’r pwysau ar draws y system. Gyda’r model hwn:

- Byddai pob addasiad gwerth llai na £1,000 yn cael eu diffinio fel ‘mân’ addasiadau. Ni fyddent yn rhan o brawf modd y Grant Cyfleusterau i Bobl Anabl a byddent yn cael eu cyflwyno drwy system llwybr cyflym. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai angen cyfraniad therapyddion galwedigaethol. Byddai’r Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym yn cael ei hehangu ar draws pob deiliadaeth ac oed ar gyfer pob addasiad gwerth hyd at £1,000
- Llywodraeth Cymru fyddai’n diffinio band canol yr addasiadau. Yn ddelfrydol, dylai’r band canol gael ei gyflwyno heb brawf modd hefyd. Byddai cyfraniad therapyddion galwedigaethol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Argymhellwn y dylai’r trothwy rhwng addasiadau canolig ac addasiadau o bwys fod rhwng £5,000 a £7,000. Fodd bynnag, byddai angen trafod yr union drothwy gydag awdurdodau lleol. Y nod fyddai pennu trothwy i gael gwared ar y prawf modd gan ddefnyddio arian Cyfalaf Cyffredinol lle bynnag y bo modd i dalu am hyn, drwy osod arbedion gweinyddol yn erbyn y nifer uwch o geisiadau. Felly, byddai’r trothwy yn is nag ydoedd yn Newis 2 yn ôl pob tebyg
- Yr addasiadau o bwys fyddai yn y trydydd band, a bydd rôl therapyddion galwedigaethol yn hanfodol. Bydd angen cadw’r prawf modd ar gyfer yr addasiadau hyn nes bydd goblygiadau llawn cael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau rhatach yn hysbys. Yn tymor hir, byddai cael gwared ar y prawf modd ar gyfer y band hwn yn ddymunol hefyd
- Fel gyda Dewis 2, gallai’r dull hwn greu’r posibilrwydd o gyflwyno system gyffredinol yn raddol, a chael gwared ar brawf modd yn yr haenau is yn gyntaf. Fel gyda Dewis 2, unwaith eto, mae cael gwared ar y prawf modd ar gyfer addasiadau bychain a chanolig yn codi cwestiynau ynglŷn gwneud yn siŵr bod adnoddau’n mynd i’r rhai sy’n methu â fforddio addasiadau eu hunain
- Ym mhob haen lle mae prawf modd yn parhau, byddai cronfa debyg i’r Grant Byw’n Annibynnol yn cael ei sefydlu i flaenoriaethu achosion brys
- Gallai Llywodraeth Cymru weithio gydag o leiaf un awdurdod lleol i roi cynnig ar gael gwared ar brawf modd y GCBA nabl yn llwyr
- Gallai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid yn y sector preifat, o bosibl, i baratoi amrywiaeth o ddewisiadau fforddiadwy i gynorthwyo teuluoedd i dalu eu cyfraniad at gost addasiadau

- Byddai Llywodraeth Cymru'n sefydlu gweithgor i ystyried pa mor ymarferol yw creu prawf modd newydd ar gyfer y GCBA yng Nghymru a fyddai'n mynd i'r afael â gwendidau'r prawf modd cyfredol
- Byddai angen addasu dulliau mesur perfformiad er mwyn ystyried perfformiad ar gyfer addasiadau bychain, canolig ac o bwys ar wahân.

### Casgliadau ac argymhellion

18. Mae problemau'r system addasiadau gyfredol wedi cael cryn sylw mewn sawl ymchwiliad ac adolygiad dilynol<sup>3</sup>. Nid ailedrych ar y problemau hyn oedd diben yr adolygiad hwn. Yn hytrach, y nod oedd symud y drafodaeth ymlaen i'r cam nesaf: beth fyddai'r effaith pe byddem yn gweithredu rhai o'r atebion arfaethedig sydd wedi'u trafod dros y blynyddoedd?
19. Wrth asesu'r dewisiadau ar gyfer newid, mae wedi bod yn dra eironig mai'r dewis sy'n ynddangos fel yr un symlaf ar yr olwg gyntaf – hynny ydy, creu system unedig – yw'r un fwyaf cymhleth o ran goblygiadau ariannol a lefel y risg i ddefnyddwyr gwasanaeth. Byddai creu system unedig yn dasg hynod ddrud, a phrin yw'r dystiolaeth y byddai rhoi pob ymgeisydd drwy un system yn rhoi deilliannau gwell. Mae'r dystiolaeth ansoddol yr ydym wedi'i chasglu yn awgrymu'r gwrthwyneb: amserau aros hirach a llai o arian yn ôl pob tebyg.
20. Mae'r ymchwil hon wedi amlygu amrywiaeth eang o gynigion a allai, yn ymarferol, roi mwy o gysondeb a thegwch heb yr anawsterau o ddod â chyllidebau ynghyd. Rydym yn dadlau y dylai dull 'un system' gydag addasiadau fod yn egwyddor arweiniol wrth lunio polisiau, pwy bynnag sy'n cyflwyno'r gwasanaeth yn y pen draw. Yn gyffredinol, byddai hyn yn golygu gwneud yn siŵr bod y rhai sy'n cael gwasanaeth addasiadau yn gallu disgwyl gwasanaeth ar lefelau tebyg, beth bynnag fo'u hamgylchiadau. Byddai'n golygu annog mwy o gysondeb o ran prawf modd, rhoi gwybodaeth ac amserau aros yn ogystal â chasglu data'n well i allu cymharu darparwyr.
21. Mae'n bwysig cydnabod darpariaeth dda hefyd ac adeiladu ar yr arfer da hwnnw. Roedd y GAFF, GBA a'r RhAYC yn sefyll allan yn yr ymchwil fel ffynonellau ariannu ymatebol a hyblyg oedd yn aml yn cael eu cyflwyno mewn ffordd a oedd yn rhoi'r unigolyn yn gyntaf. Prin fyddai'r synnwyr mewn cau ffynonellau arian sy'n gweithio'n dda – dylid canolbwyntio yn lle hynny ar beth sy'n gweithio a cheisio'i ddyblygu ar draws y system. Yn ymarferol, mae'n golygu canolbwyntio ar GCBA fel y ffynhonnell arian sy'n peri'r pryderon mwyaf o ran amserau cyflwyno ac anghysondebau.

<sup>3</sup> Mae ymchwiliadau ac adolygiadau yng Nghymru'n cynnwys: yr *Adolygiad o Gyfiawnder Cymdeithasol Ac Adfywio* (2004); yr *Adolygiad o Addasiadau Tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl* (2005); *Dal i Aros: Gwasanaethau Cynnal ac Addasu Cartrefi i Bobl Hŷn yng Nghymru* (2009) gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru; *Adolygiad o Gynnydd wrth Weithredu Argymhellion wrth Ddarparu Gwasanaethau Addasiadau yng Nghymru* (2010) gan CEL Transform; ac *Ymchwiliad i Addasiadau mewn Cartrefi* (2013) gan Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol

22. Mae'r adolygiad yn amlygu prawf modd GCBA fel prif achos anghydraddoldeb yn y system. Mae modd cymharu manteision darpariaeth gyffredinol o gymharu ag asesu'r gallu i dalu, yn enwedig pan mae llai o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn yn dod i'r casgliad bod modd fforddio dileu'r prawf modd *hyd at lefel benodol sy'n gyson ledled Cymru* nawr, ac y byddai'n cyfrannu'n sylweddol at roi deilliannau cyfartal.
23. Mae'r adolygiad hwn yn amlinellu camau tuag at ddileu'r prawf modd ar gyfer pob addasiad *yn y tymor hir*. Mae angen i hon fod yn broses a drefnir yn ofalus i osgoi creu amserau aros hwy a rhoi coffrau ariannol o dan bwysau amhriodol.
24. Mae'r adolygiad hwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu Dewisiadau 1 a 3 fel a ganlyn:

**Argymhelliad 1:** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i symud tuag at fabwysiadu darpariaeth gyffredinol heb gynnal prawf modd yn y tymor hir.

**Argymhelliad 2:** Dylai darparu addasiadau gael ei aildrefnu'n system haenog a chyson ledled Cymru:

- Mân addasiadau gwerth hyd at £1,000
- Addasiadau canolig gwerth rhwng £1,000 a £5-7,000 (union lefel i'w thrafod gyda llywodraeth leol)
- Addasiadau o bwys gwerth dros £5-7,000.

**Argymhelliad 3:** Dylai Llywodraeth Cymru orfodi awdurdodau lleol i eithrio mân addasiadau (sef y rhai sy'n costio £1,000 neu lai) o'r prawf modd.

**Argymhelliad 4:** Dylai Llywodraeth Cymru drafod eithrio addasiadau canolig o'r prawf modd gyda llywodraeth leol.

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru gynnig cronfa debyg i'r GBA er mwyn blaenoriaethu achosion brys GCBA ar gyfer pob haen lle ceir prawf modd.

**Argymhelliad 6:** Dylid ehangu ffynhonnell RhAYC a gyflwynir gan Gofal a Thrwsio Cymru i gynnwys pob deiliadaeth ac oed ar gyfer addasiadau gwerth hyd at £1,000.

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol a phartneriaid eraill i wneud yn siwr bod amrywiaeth o ddewisiadau fforddiadwy i gynorthwyo teuluoedd i wneud eu cyfraniad at gostau addasiadau ar gael yn gyson ledled Cymru. Gall hyn gynnwys benthyciadau eildro; rhyddhau ecwiti; codi tâl am eiddo; cymorth gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Adran 2(1)(e) Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 neu Fenthyciadau Gwella'r Cartref.

**Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor i ystyried pa mor ymarferol fyddai creu prawf modd newydd ar gyfer y GCBA yng Nghymru sy'n mynd i'r afael â gwendidau'r prawf cyfredol.

**Argymhelliad 9:** Dylai Llywodraeth Cymru orfodi landlordiaid cymdeithasol i gofnodi nifer a gwerth pob addasiad a dynnir o'u stoc yn flynyddol, wedi'u categoreiddio yn ôl y rhesymau dros eu tynnu.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o wella ansawdd data am addasiadau ar draws y system er mwyn datblygu polisïau da. Dylid casglu data llawn am gydraddoldeb yn gyson ar draws pob nodwedd a ddiogelir ledled Cymru.

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru wella'r dangosydd perfformiad addasiadau drwy fesur yr amser a gymerir rhwng ymholiad cychwynnol asesiad, ac wedyn rhwng asesu a chwblhau ar wahân. Argymhellwn i chi gasglu data am berfformiad mewn modd cyson gan bob asiantaeth sy'n cyflwyno. Hwyrach y gellir hefyd datblygu dulliau mesur perfformiad sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dylai dangosyddion perfformiad gofnodi mân addasiadau, addasiadau canolig ac addasiadau o bwys ar wahân.

**Argymhelliad 12:** Dylai pob asiantaeth sy'n rhoi addasiadau wneud yn siwr bod eu timau ThG yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon:

- Dylai pob ThG cynorthwyol gael hyfforddiant wedi'i achredu gan asesydd y gellir ymddiried ynddo
- Dylai pob asiantaeth wirio gweithdrefnau yn erbyn arweiniad Coleg y Therapyddion Galwedigaethol – *Mân Addasiadau'n Ddiymdroi* (COT, 2006) sy'n egluro pryd gellir defnyddio aseswyr y gellir ymddiried ynddynt yn hytrach na ThG.

**Argymhelliad 13:** Dylai pob asiantaeth sy'n rhoi addasiadau adolygu'r wybodaeth a roddir ar hyn o bryd i ofalu ei bod yn glir ac ar gael. Dylai gwybodaeth fodloni'r holl nodweddion a ddiogelir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ac ar gael mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau sy'n adlewyrchu cefndiroedd amrywiol pobl Cymru.

**Argymhelliad 14:** Dylai awdurdodau lleol ailedrych ar gylchlythyr 20/02 y Cynulliad a gofalu eu bod yn dilyn y weithdrefn sefydledig ar gyfer mesur y dangosydd perfformiad, o'r ddolen gyswllt gyntaf, fel yr argymhellir yn yr arweiniad cyfredol.

**Argymhelliad 15:** Dylai awdurdodau lleol sydd heb Gofrestr Tai Hygyrch ar waith weithio gyda phartneriaid LCC i baratoi un. Dylid ystyried o ddifrif ffyrdd o gynnwys y sector rhentu preifat.

**Argymhelliad 16:** Dylai awdurdodau lleol sydd heb wasanaeth asiantaethau llawn ystyried cyflwyno un i gynorthwyo pobl drwy'r broses GCBA mor gyflym â phosibl.

**Argymhelliad 17:** Dylai awdurdodau lleol nad ydynt yn cynnig grantiau lifftiau grisiau, ystyried dilyn arferion gorau cyfredol drwy gyflwyno ffynhonnell grant sy'n ailgylchu lifftiau grisiau syth i'w cyflwyno y tu allan i'r GCBA.

**Argymhelliad 18:** Dylai awdurdodau lleol sydd heb dîm aml-ddisgyblaeth yn gweithio ar addasiadau, gyda therapyddion galwedigaethol yn yr un tîm â thai, ystyried aildrefnu timoedd fel hyn gan ddilyn arferion da cyfredol yng Nghymru.